# Addysgu a dysgu cyfunol effeithiol: Set ymarferol o awgrymiadau

**Mae addysgu a dysgu cyfunol yn gyfuniad pwrpasol o ddysgu yn y dosbarth a dysgu o bell sydd â'r potensial i wella dysgu a phrofiadau myfyrwyr mewn ysgolion yng Nghymru ar ôl y coronafeirws. Bwriad yr awgrymiadau a restrir isod yw helpu ysgolion i gynllunio ac integreiddio dulliau addysgu a dysgu cyfunol yn effeithiol yn eu lleoliad. Dylid eu darllen ar y cyd â briff tystiolaeth WCPP ar ddulliau addysgu a dysgu cyfunol effeithiol (Bawler, 2022).**

## Gweledigaeth

- I ba raddau ac ym mha ffyrdd yr ydym ni a'n rhanddeiliaid allweddol yn ystyried y bydd addysgu a dysgu cyfunol yn gwella profiadau a deilliannau ein myfyrwyr a chymuned ein hysgol?
- Beth yn ein tyb ni fydd rôl a graddau delfrydol addysgu a dysgu cyfunol yn ein hysgol yn y dyfodol?
- A ydym wedi ystyried amrywiaeth o gyfleoedd dysgu cyfunol, er enghraifft gwaith cartref, dysgu gwrthdro, ystafell ddosbarth rithwir, opsiynau ychwanegol CA4 drwy bartneriaethau, addysg heblaw yn yr ysgol, darpariaeth teithwyr/meddygol/anghenion dysgu ychwanegol, cynigion allgyrsiol?

## Cynllun

- Beth yw ein cynlluniau tymor byr/tymor canolig ar gyfer hyn?
- Pwy fydd yn arwain ar hyn? A yw hyn yng nghynllun datblygu ein hysgol?
- A oes gan staff y sgiliau/offer angenrheidiol?
- A oes gan fyfyrwyr y sgiliau/offer angenrheidiol?
- Pa amser/hyfforddiant/cymorth ychwanegol y bydd ei angen arnom (e.e. ar egwyddorion Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu, addysgeg, sgiliau digidol)?
- A all model yr Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ein cynorthwyo â hyn?

## Cam gweithredu

- Sut/pryd y byddwn ni'n ei gyflwyno i staff, myfyrwyr a rhieni?
- Pa athrawon/dosbarthiadau fydd yn dechrau hyn yn gyntaf?
- Am ba hyd y byddwn yn ei dreialu?
- Sut byddwn yn ei werthuso ac yn sicrhau ei ansawdd?
- Pryd a sut byddwn yn rhoi adborth ac yn rhannu dysgu ar draws yr ysgol?
- Sut byddwn yn diwygio polisïau a phecynnau cymorth addysgu a dysgu ein hysgol i gynnwys hyn yn dilyn yr adolygiad?

## Adnoddau allweddol ar gyfer cymorth

| Maes | Adnodd |
|---|---|
| Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu | **Canllawiau Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (CAST)** |
| Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu | **Y dudalen ar wefan Hwb ar ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu** |
| Dysgu Gwrthdro | **Canllaw NfER a Nesta i ymarferwyr ar ddysgu gwrthdro** |
| Gwybodaeth Addysgeg Gyfunol | Kaur, M. (2013). **Blended learning – its challenges and future.** *Procedia-social and behavioral sciences, 93*, t.612-617. |
| Systemau Dysgu Cyfunol | **Y dudalen ar wefan Hwb ar ddysgu cyfunol** |
| Cyfres Addysg Covid yr OECD | **"Education responses to COVID-19: Implementing a way forward"** |

## Rhagor o wybodaeth

I gael papur briffio polisi cysylltiedig sy'n adolygu ac yn crynhoi'r dystiolaeth ar addysgu a dysgu cyfunol yn fanylach, gweler: Bawler, R. (2022). **Dulliau addysgu a dysgu cyfunol effeithiol.** Caerdydd: Canolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru.

## Manylion yr awdur

Mae **Rebekah Bawler** yn athrawes ysgol uwchradd mewn ysgol gyfun yn ne Cymru ac mae'n astudio ar gyfer Doethuriaeth mewn Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda thraethawd yn canolbwyntio ar ddatblygiad digidol ysgolion. Mae Rebekah yn aelod o fwrdd Impact Wales ac yn aelod o Fforwm Cynghori EdTech, rhan o'r Sefydliad Addysg.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works Network') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government